| | |
|---|---|
| **Enw:** | *Elinor Crouch-Puzey, Swyddog Polisi ac Ymchwil* |
| **Sefydliad:** | *Cymorth i Ferched Cymru* |
| **Cyfeiriad Ebost:** | *EliCrouch-Puzey@welshwomensaid.org.uk* |
| **Rhif Ffôn:** | *02920 451 551* |
| **Cyfeiriad:** | *Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE* |
| **Dyma safbwyntiau:** | *Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) - yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.* |

**Ymateb Cymorth i Ferched Cymru i Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru mewn perthynas â mesur perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cefndir: Ynglŷn â Cymorth i Ferched Cymru**

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau annibynnol arbenigol yng Nghymru yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (*VAWDASV*), (sy'n cynnwys ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac aelodau rhanbarthol Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol).[1] Mae'r gwasanaethau hyn, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y Deyrnas Unedig, yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau yn ogystal â gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Fel corff ymbarél, ein prif bwrpas yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroeswyr, a'r rheini yn wasanaethau sy'n ymateb i anghenion, sy'n dangos cydraddoldeb rhywiol ac sy'n holistig. Cydweithiwn yn genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru; darparwn gyngor, gwasanaethau ymgynghori, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac o fewn cymunedau, a hynny er budd goroeswyr.

[1] Mae ein haelodaeth o 22 o wasanaethau arbenigol trydydd sector yng Nghymru sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y mae gennym gytundebau partneriaeth cenedlaethol â hwy er mwyn sicrhau y cydlynir ac integreiddir ein gwaith, yn cynnwys : Dylunio a Mynediad Aberconwy, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Cylch, Cymorth i Ferched Cymdeithasau Tai Clwyd Alyn (CAHA), *Stepping Stones*, *Safer Merthyr Tydfil*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, *Calan DVS*, Cymorth i Fenywod Caerdydd, Cymorth i Fenywod Cyfannol, Uned Diogelu Trais Teuluol (*DASU*), Gorwel (Grŵp Cynefin), *Montgomeryshire Family Crisis Centre*, Cymorth i Fenywod Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin

Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Fenywod Rhondda Cynon Taf, Cymru Ddiogelach (gan gynnwys prosiect *Dyn*), Cymorth i Fenywod Abertawe, *Threshold*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru a Chanolfan Trais a Cham-drin Rhywiol (*RASASC*) Gogledd Cymru.

Rydym ni hefyd yn darparu gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys, er enghraifft, Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a phartneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol. Rydym yn treialu prosiect 'Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr' (*SEEdS*), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddod at ei gilydd i ysbrydoli ac i ddylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus a fframweithiau comisiynu, ac i fod yn gymorth i newid agweddau.

Rydym ni hefyd yn cyflenwi Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymru, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir mwy o wybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd Cenedlaethol yma: : http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/

**Ymateb i'r ymgynghoriad:**

Mae ein hymateb i *Cod Ymarfer* Llywodraeth Cymru *mewn perthynas â mesur perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol* yn canolbwyntio ar bwysigrwydd sefydlu ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws y Cod Ymarfer, yn arbennig y dylestwyddau statudol a ymgorfforwyd yn y gyfraith ac arfer dda.

Croesawn y cyfle a gyflwynir gan yr ymgynghoriad hwn i adolygu Fframwaith Mesur Perfformiad 2016 ar gyfer Awdurdodau Lleol, gan fod adborth gan awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ynghylch ansawdd y data a gyflwynwyd wedi dangos nad yw'r model cyfredol ar gyfer y fframwaith yn gweithio fe y bwriadwyd iddo a bod angen ei fireinio.

Nodwn fod gweithdai ymgynghorol wedi awgrymu y dylid datblygu Fframwaith Perfformio a Gwella ehangach a mwy cynhwysfawr ac y dylid ei gysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ogystal â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. ***Ychwanegwn fod yn rhaid i hyn hefyd gysylltu â Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, er mwyn bod yn effeithiol***.

Mae'n **rhaid** i'r ***Safonau Ansawdd*** cysylltiedig, sy'n nodi'r gofynion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu cyflawni mewn perthynas â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ***hefyd adlewyrchu dyletswyddau statudol yr awdurdod lleol i ddarparu cymorth a sefydlu mecanweithiau amddiffynnol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a sicrhau hefyd eu bod yn cymryd camau i atal trais yn erbyn menywod a merched ym mhob peth a wnânt.***

Mae'r dyletswyddau o dan Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn gosod dyletswyddau statudol penodol ar awdurdoadau lleol i atal ac ymateb i drais yn

erbyn menywod ac felly ***dylid croesgyfeirio ato'n glir trwy gydol y Cod Ymarfer***; ni ddylai gofynion y ddeddfwriaeth gyfochrog weithredu mewn seilos.

Er enghraifft, caiff cam-drin domestig yn aml ei gyfuno gyda "cham-drin yr henoed" neu caiff ei ystyried fel rhywbeth sydd wedi'i achosi gan bwysau gofal. Mae Prosiect Arian *Solace Women's Aid* wedi canfod nad oes gan rai asiantaethau ddigon o eglurder rhwng cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a cham-drin yr henoed.[2] Mae trais rhywiol yn cael effaith sylweddol ar salwch meddwl unigolyn, eto i gyd, yn anaml y caiff hwn ei adnabod fel achos anghenion cymorth rhywun mewn lleoliadau gofal cymdeithasol. Gall ganolbwyntio ar 'gam-drin' pobl hŷn' neu fathau eraill o esgeulustod yn unig arwain at ymateb sy'n ddall i'r rhywiau a dibynna ar ddiffiniad cul o drais, heb gydnabod deinameg rhyw a phŵer sy'n cyd-fynd â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gall ymarfer wedyn gymryd y risg o ganolbwyntio ar anghenion meddygol a gofal cymdeithasol yn unig yn hytrach nag ar brofiadau penodol o gam-drin domestig, priodas dan orfod, tresio neu drais rhywiol, stelcian neu aflonyddu, a thrais 'ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir, a'u hangen am eiriolaeth arbenigol effeithiol, cynllunio diogelwch, a chymorth gan wasanaethau arbenigol sydd wedi'i lywio gan drawma a'i seilio ar gryfderau.

Anogwn Lywodraeth Cymru i ***sicrhau bod y Cod Ymarfer a'r gofynion o ran data ac adrodd yn cynnwys dyletswyddau awdurdodau lleol i 'ofyn a gweithredu' mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac i weithredu Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol statudol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol***. Gwyddom fod y garfan o bobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol i oedolion hefyd yn cael eu heffeithio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae menywod anabl yn dioddef cyfraddau anghymesur uwch o gam-drin na phobl nad ydynt yn anabl [3] ac mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi amcangyfrirf bod dros 40,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn cael eu cam-drin yn eu cartrefi eu hunain bob blwyddyn[4]. Mae adnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gywir yn ofyniad statudol i awdurdodau lleol. Bydd hyn yn gymorth i wasanaethau ganolbwyntio ar natur y berthynas rhwng y goroeswr a'r sawl sy'n cam-drin ac ar y peryglon sy'n gysylltiedig â hyn, yn hytrach nag ar oed a/neu allu corfforol neu feddyliol y person a gamdriniwyd. Mae Prosiect Dewis[5] er enghraifft, yn nodi bod hyn yn bwysig gan fod cymhellion drwgweithredwr trais yng nghyd-destun rheolaeth gymhellol yn wahanol [6] i berson sy'n esgeuluso rhywun y mae'n gofalu amdano, mewn lleoliad sefydliadol efallai. Yng nghyd-destun trais a cham-drin bydd y drwgweithredwr yn aml yn defnyddio strategaethau rheolaeth gymhellol, tra bod hyn yn gallu bod yn llai amlwg lle bo ymddygiad camdriniol yn ganlyniad i esgeulustod anfwriadol.

---

[2] Solace Women's Aid – Silver Project – https://avaproject.org.uk/wp/wp-content/uploads/2016/12/Solace-Womens-Aid-Silver-Project-Findings-Older-Women-Experiencing-Domestic-Violence-Sexual-Abuse-.pdf
[3] Cymorth i Ferched Cymru ac Anabledd Cymru https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/WWA-and-Disability-Wales-2019-report-Final-ENG.pdf tudalen 7
[4] 'Cam-drin domestig a thrais rhywiol: Cymorth a Chefnogaeth i Bobl Hŷn yng Nghymru', Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/DVSA_Leaflet_-_Welsh_2016.sflb.ashx

[5] Mae Prosiect Dewis yn brosiect dan arweiniad y gymuned sy'n mynd i'r afael â gwrthdaro ac anawsterau y mae pobl dros 60 mlwydd oed yn eu hwynebu yn eu perthynas â ffrindiau, teulu a phartneriaid agos.
[6] Proisect Dewis - https://academic.oup.com/bjsw/article/48/4/962/5059565?searchresult=1

Dylai Llywodareth Cymru enwi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn benodol o fewn y Cod Ymarfer:

> O fewn y Safonau Ansawdd, croesawn yr ymrwymiad i *'ddiogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth a mathau eraill o niwed'*, ond mae angen egluro hyn ymhellach er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dylestwyddau o ran gofyn a gweithredu ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a ddioddefwyd gan oroeswyr. Mae'r peryglon o beidio â nodi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn benodol ac ymateb iddynt yn gwbl glir;  canfu Cyfrifiad Llofruddiaethau Menywod diweddaraf y DU fod 20 o'r menywod a laddwyd gan ddynion yn 2017 dros 66 oed[7], canfu'r adroddiad hefyd fod meibion yn fwy tebygol o ladd eu mamau, a bod nifer y meibion yn uwch na phartneriaid fel prif ddrwgweithredwyr ar gyfer y categori oedran hwn.
>
> O fewn y Safonau Ansawdd, byddem yn disgwyl hefyd gydnabyddiaeth o'r ffaith y gallai drwgweithredwyr fod yn cael mynediad i gymorth gofal cymdeithasol eu hunain ar gyfer eu gwendidau eu hunain neu fel gofalwyr y personau y maen nhw'n eu cam-drin. Mae'n bwysig bod y Cod Ymarfer yn dangos sut y gellir darparu cymorth yn ddiogel i'r ddau, heb gyfaddawdu dioglewch y dioddefwr/goroeswr, a bod ymyriadau priodol i herio a mynd i'r afael ag ymddygiad y drwgweithredwr yn cael eu hintegreiddio i safonau awdurdodau lleol. Mae angen rhoi cyfleoedd i oroeswyr ddatgelu camdriniaeth yn gyfrinachol, ac mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol fod yn gymwys i wahaniaethu rhwng trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ei achosion a'i ganlyniadau, ac a yw camdriniaeth yn gysylltiedig â symptomau afiechyd meddwl neu ddementia, er enghraifft.

Mae'r Cod Ymarfer yn nodi bod *'dull darbodus o ddyrannu adnoddau yn sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg iawn'*, byddem yn annog dyrannu'r adnoddau hynny i gefnogi ymarferwyr i adnabod arwyddion cynnar trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac atal '*angen cynyddol'.*

> Er enghraifft, mae model Newid sy'n Para[8] yn dangos gwerth dynol ac ariannol ymyrraeth gynnar mewn achosion o drais yn erbyn menywod, ac mae'n seiliedig ar ein degawdau o brofiad sy'n dangos nad yw menywod yn aml yn derbyn y math cywir o ymateb y tro cyntaf iddyn nhw ddatgelu. Felly, gall sicrhau bod ymarferwyr yn gallu ymateb yn briodol ar y cysylltiad cyntaf fod o fudd i'r sector gofal cymdeithasol yn ogystal ag i'r unigolyn.

---

[7] The Femicide Census, Dr Julia Long, Keshia Harper, Heather Harveyhttps://1q7dqy2unor827bqjls0c4rn-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2018/12/Femicide-Census-of-2017.pdf, tudalen 28

[8] https://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/change-that-lasts/

Mae Cymorth i Ferched Cymru hefyd yn pryderu bod y canllawiau'n awgrymu *'y dylai awdurdodau lleol hefyd gomisiynu neu gynnal eu hymchwil eu hunain yn y meysydd sydd bwysicaf iddynt'.* Gall hyn waethygu ymhellach y diffyg cysondeb y mae goroeswyr ledled Cymru yn ei wynebu gan wasanaethau cyhoeddus a statudol. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn blaenoriaethu dyletswyddau statudol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gydnabod nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n dioddef rheolaeth gymhellol, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod.

Hoffai Cymorth i Ferched Cymru ddiolch i Lywodraeth Cymru am y cyfle i roi adborth ar y mater pwysig hwn. Byddem yn hapus hefyd i gynnig tystiolaeth bellach ar lafar neu'n ysgrifenedig, pe bai angen.

---

Gellir cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau
ynghylch ein hymateb at:
Elinor Crouch-Puzey
Swyddog Polisi ac Ymchwil
EliCrouch-Puzey@welshwomensaid.org.uk
02920 541551